

ATODLEN 7

PARTNERIAETHAU

RHAN 8

TROSGLWYDDIADAU SY’N YMWNEUD Â PHARTNERIAETHAU BUDDSODDI MEWN EIDDO

Trosglwyddo buddiant mewn partneriaeth buddsoddi mewn eiddo

- 34 (1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys—
- pan drosglwyddir buddiant mewn partneriaeth buddsoddi mewn eiddo, a
 - pan fo eiddo perthnasol y bartneriaeth yn cynnwys buddiant trethadwy.
- (2) At ddibenion y Ddeddf hon—
- cymerir bod y trosglwyddiad yn drafodiad tir, a
 - mae’r trosglwyddiad yn drafodiad trethadwy.
- (3) Y prynwr yn y trafodiad yw’r person sy’n caffael cyfranddaliad uwch yn y bartneriaeth neu, yn ôl y digwydd, sy’n dod yn bartner o ganlyniad i’r trosglwyddiad.
- (4) Cymerir bod y gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad yn hafal i gyfran o werth marchnadol eiddo perthnasol y bartneriaeth.
- (5) Y gyfran honno—
- os nad oedd y person sy’n caffael y buddiant yn y bartneriaeth yn bartner cyn y trosglwyddiad, yw cyfranddaliad y person yn y bartneriaeth yn union ar ôl y trosglwyddiad;
 - os oedd y person yn bartner cyn y trosglwyddiad, yw’r gwahaniaeth rhwng cyfranddaliad y person hwnnw yn y bartneriaeth cyn y trosglwyddiad ac ar ei ôl.
- (6) Ystyr “eiddo perthnasol y bartneriaeth”, mewn perthynas â throsglwyddiad Math A o fuddiant mewn partneriaeth, yw pob buddiant trethadwy a ddelir fel eiddo’r bartneriaeth yn union ar ôl y trosglwyddiad, ac eithrio—
- unrhyw fuddiant trethadwy a drosglwyddwyd i’r bartneriaeth mewn cysylltiad â’r trosglwyddiad,
 - les y mae paragraff 35 (eithrio lesioedd rhent marchnadol) yn gymwys iddi, ac
 - unrhyw fuddiant trethadwy nad yw i’w briodoli yn economaidd i’r buddiant yn y bartneriaeth a drosglwyddir.
- (7) Ystyr “eiddo perthnasol y bartneriaeth”, mewn perthynas â throsglwyddiad Math B o fuddiant mewn partneriaeth, yw pob buddiant trethadwy a ddelir fel eiddo’r bartneriaeth yn union ar ôl y trosglwyddiad, ac eithrio—
- unrhyw fuddiant trethadwy a drosglwyddwyd i’r bartneriaeth mewn cysylltiad â’r trosglwyddiad,
 - les y mae paragraff 35 (eithrio lesioedd rhent marchnadol) yn gymwys iddi,
 - unrhyw fuddiant trethadwy nad yw i’w briodoli yn economaidd i’r buddiant yn y bartneriaeth a drosglwyddir,

- (d) unrhyw fuddiant trethadwy a drosglwyddwyd i'r bartneriaeth ar 22 Gorffennaf 2004 neu cyn hynny,
 - (e) unrhyw fuddiant trethadwy y gwnaed dewis yn ei gylch o dan baragraff 36, mewn cysylltiad â'i drosglwyddiad i'r bartneriaeth, ac
 - (f) unrhyw fuddiant trethadwy arall nad oedd ei drosglwyddiad i'r bartneriaeth o fewn paragraff 13(1).
- (8) Ystyr trosglwyddiad Math A yw—
- (a) trosglwyddiad sydd ar ffurf trefniadau yr ymrwymir iddynt pan fo, oddi tanynt—
 - (i) holl fuddiant partner fel partner, neu ran ohono, yn cael ei gaffael gan berson arall (a gaiff fod yn bartner presennol), a
 - (ii) cydnabyddiaeth mewn arian neu gyfwerth ariannol yn cael ei rhoi gan y person sy'n caffael y buddiant, neu ar ei ran, neu
 - (b) trosglwyddiad sydd ar ffurf trefniadau yr ymrwymir iddynt pan fo, oddi tanynt—
 - (i) person yn dod yn bartner,
 - (ii) buddiant partner presennol yn y bartneriaeth yn cael ei ostwng neu bartner presennol yn peidio â bod yn bartner, a
 - (iii) arian neu gyfwerth ariannol yn cael ei dynnu o'r bartneriaeth gan y partner presennol a grybwyllir ym mharagraff (ii) (ac eithrio arian neu gyfwerth ariannol a dalwyd o'r adnoddau a oedd ar gael i'r bartneriaeth cyn y trosglwyddiad).
- (9) Mae unrhyw drosglwyddiad arall y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo yn drosglwyddiad Math B.
- (10) Mae buddiant mewn cysylltiad â'r trosglwyddiad y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo i'w drin fel buddiant trethadwy at ddibenion paragraff 8(2) o Atodlen 16 (rhyddhad grŵp) i'r graddau y bo eiddo perthnasol y bartneriaeth yn fuddiant trethadwy.